

**CYNLLUN GRANTIAU BACH
CYNNIG GOFAL PLANT
CYNGOR SIR CAERFYRDDIN:
CANLLAWIAU AC AMODAU CYLLID CYFALAF
YCHWANEGOL**

**CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL
CHILDCARE OFFER SMALL GRANT SCHEME:
ADDITIONAL CAPITAL FUNDING GUIDANCE
AND CONDITIONS**

Dylid cyfeirio pob ymholiad at y canlynol: All enquiries should be directed to the:

**Y Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal
Plant a Chwarae**
Adeilad 2,
Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin
SA31 3HB

**Family Information, Childcare & Play
Team**
Building 2,
Parc Dewi Sant,
Jobs Well Road,
Carmarthenshire
SA31 3HB

Ffôn / Tel: 01267 246555

E-bost / E-mail: smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk

Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â Rhaglen Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant - Cyllid Cyfalaf Ychwanegol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid grant ychwanegol:

1. Grant Diogel o ran COVID
2. Grant Digidol y Cynnig Gofal Plant

Gall lleoliadau wneud cais am un grant neu'r ddau grant.

Sylwer, mae lleoliadau'n gymwys i wneud cais os ydynt eisoes wedi derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau Bach eleni. Fodd bynnag, oherwydd cyllid cyfyngedig, ystyrir ceisiadau ar sail y cyntaf i'r felin. Bydd ceisiadau gan lleoliadau nad ydynt wedi derbyn cyllid drwy'r Cynllun Grantiau Bach o'r blaen yn cael eu blaenoriaethu. Felly, rydym yn annog lleoliadau i gyflwyno ceisiadau'n brydlon.

Award of Funding in relation to Childcare Offer Capital Grant Programme – Additional Capital Funding

Carmarthenshire County Council have successfully bid for additional grant funding:

1. COVID Secure Grant
2. Childcare Offer Digital Grant

Settings can apply for one or both grants.

Please note, settings are eligible to apply if they have already received Small Grant Scheme funding this year. However due to limited funding, applications will be considered on a first come first serve basis. Applications from settings that have not received Small Grant Scheme funding previously will be prioritised. We therefore encourage settings to submit applications promptly.

Nodiadau Cyfarwyddyd ac Amodau

Mae pob lleoliad sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n cynnig llefydd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed neu sy'n bwriadu cynnig llefydd yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys gwarchodwyr plant, darparwyr sector preifat a gwirfoddol, a lleoliadau a gynhelir sy'n cynnig gofal dydd, gofal cofleidiol neu gynlluniau chwarae dros y gwyliau. Gellir hefyd ystyried ceisiadau gan ddarparwyr gofal plant wrthi'n gwneud cais am gofrestru. Bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod y darparwr yn y broses o wneud cais i AGC. **Mae'n rhaid i'r darparwr gofal plant fod yn Sir Gaerfyrddin.** Ni all darparwr wneud cais i fwy nag un Awdurdod Lleol er y gall fod yn derbyn plant o fwy nag un Awdurdod.

Guidance Notes and Conditions

All settings registered with Care Inspectorate Wales (CIW) who are offering Childcare Offer places for 3 and 4 year olds or who intend to offer places are eligible to apply. This includes childminders, private and voluntary sector providers, and maintained settings offering day care, wrap around care or holiday play schemes. Applications can also be considered from childcare providers who are in the process of applying for registration. The Council will need to be satisfied that the provider is genuinely in the process of making an application to CIW. **The childcare setting location must be based in Carmarthenshire.** A provider cannot apply to more than one Local Authority even though they may be taking children from more than one Authority area.

Wrth wneud cais rhaid i'r darparwr wneud y canlynol:

- Gallu dangos bod galw heb ei ddiwallu am ofal plant;
- Cofrestru gydag AGC neu yn achos darparwyr newydd, rhoi addewid ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gydag AGC cyn gynted â phosibl. Os nad yw lleoliad wedi cofrestru o fewn 6 mis ar ôl derbyn grant yna gall y Cyngor gymryd camau i adennill yr arian;
- Cofrestru gyda Chyngor Sir Ceredigion i ddarparu lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant neu roi addewid ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gyda'r Cyngor;
- Gallu dangos sicrwydd deiliadaeth am o leiaf 5 mlynedd. Os bydd llai na 5 mlynedd ar ôl ar y brydles, gellir ystyried ceisiadau lle gall y darparwr ddangos bod ymrwymiad neu fwriad clir gan y landlord i adnewyddu'r brydles;
- Bod yn barod i ymrwymo i gynnig lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y gwneir y taliad grant terfynol a chydabod os yw'n rhoi'r gorau i ddarparu lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu ffioedd yn rheolaidd dros y rhai sy'n derbyn y Cynnig, yna y bydd gofyn iddo ad-dalu'r holl gyllid grant a delir neu ran ohono. Bydd y swm i'w ad-dalu yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau;
- Bod yn barod i weithio ochr yn ochr â Swyddogion Datblygu Gofal Plant i sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd yn y tymor hir;
- Cydnabod y buddsoddiad y mae wedi'i dderbyn mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo a roddir i rieni.

In making an application a provider must:

- Be able to demonstrate that there is an un-met demand for childcare;
- Be registered with CIW or in the case of new providers, give a written undertaking that it will register with CIW at the earliest opportunity. If a setting is not registered within 6 months of grant having been drawn down then the Council may take steps to recover the funds;
- Be registered with Ceredigion Council to deliver Childcare Offer places or give a written undertaking that it will be registering with the Council;
- Be able to demonstrate security of tenure for a minimum of 5 years. Where the number of years remaining of a lease is less than 5 years, consideration may be given to applications where the provider is able to show that there is a clear commitment or intent from the landlord to renew the lease;
- Be prepared to commit to offer Childcare Offer places for a minimum of 5 years from the date on which the final grant payment is made and acknowledge that if it stops providing Childcare Offer places or routinely accepts fee paying children over those in receipt of the Offer, then it will be required to repay all or part of the grant funding paid. The amount repayable will vary depending on the circumstances;
- Be prepared to work alongside Childcare Development Officers to ensure viability and long term sustainability;
- Acknowledge the investment it has received in any promotional material issued to parents.

Gellir ystyried y canlynol hefyd, yn enwedig os yw'r Grant wedi'i ordanysgrifio:

- Bod y darparwr yn aelod o sefydliad ymbarél gofal plant fel NDNA, Mudiad Meithrin, Blynnydoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, PACEY Cymru, ac ati. Fodd bynnag, er ei bod yn syniad da cofrestru gydag un o'r sefydliadau hyn, nid yw'n orfodol.
- Y gellir darparu'r Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol er mwyn darparu'r 48 wythnos lawn y mae gan y plentyn hawl iddynt;
- Bod y lleoliad yn gallu darparu lleoedd gofal plant ychwanegol yn sgil y buddsoddiad neu y bydd ansawdd y lleoedd gofal plant yn gwella;
- Bod gan y lleoliad ddyfarniad sicrhau ansawdd dilys.

Ni ellir defnyddio grantiau at unrhyw ddiben oni bai am yr hyn a nodir yn y ffurflen gais ac o fewn y Telerau ac Amodau.

Bydd angen i geisiadau llwyddiannus dderbyn y cynnig yn ffurfiol yn ysgrifenedig trwy lofnodi'r Contract Derbyn.

Dylid gwario'r holl arian a ddyrennir cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad y llythyr dyfarnu. Bydd angen i chi gwblhau adroddiad ar sut y defnyddiwyd y cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Os bydd derbynnydd y grant yn methu â chydymffurfio ag amodau'r grant neu'n methu â dychwelyd yr adroddiad erbyn dyddiad penodol yna bydd gofyn i chi ad-dalu'r cyllid yn llawn neu'n rhannol. Bydd swm o'r fath yn cael ei ad-dalu ar unwaith i'r Cyngor.

Consideration may also be given to the following, particularly if the Grant is oversubscribed:

- The provider is a member of a childcare umbrella organisation such as NDNA, Mudiad Meithrin, Early Years Wales, Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, PACEY Cymru, etc. However whilst registration with one of these organisations is advisable, it is not obligatory;
- The Childcare Offer can be delivered during term time and the school holidays in order to provide the full 48 weeks that the child is entitled to;
- The setting will be able to deliver additional childcare places as a result of the investment or the quality or range of the childcare places will improve;
- The setting has a valid quality assurance award.

Grants cannot be used for any purpose other than that stated on the application form and within the Terms and Conditions.

Successful applications will be required to formally accept the offer in writing by signing the Acceptance Contract.

All funding allocated should be spent within 6 months of the date of the award letter. You will be required to complete a report on how the funding was used during that financial year.

Should a grant recipient fail to comply with the conditions of the grant or fail to return the report by the set date then you will be required to repay the funding in full or part. Such sum shall be immediately repayable to the Council.

Bydd yn ofynnol i bob darparwr sy'n derbyn cyllid o'r Cynllun Grantiau Bach gyntuno i dderbyn y cynnig yn ffurfiol trwy lofnodi'r Contract Derbyn yn ogystal â Thelerau ac Amodau'r grant.

- Mae'r arian yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a rhaid cydnabod hyn mewn unrhyw ddeunydd fel cylchlythyrau a roddir i rieni, a dylid defnyddio brandio'r Cynnig Gofal Plant;
- Os ydych chi'n prynu nwyddau a / neu wasanaethau i gyflawni pwrpas y cais bydd yn rhaid i chi eu prynu mewn ffordd gystadleuol a chynaliadwy i ddangos eich bod wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Os yw'r gwaith/adnoddau y gwneir cais amdanynt gan un cyflenwr yn is na £4999 dim ond 1 dyfynbris sydd ei angen. Os yw'r gwaith/adnoddau y gwneir cais amdanynt yn fwy na £5000 gan un cyflenwr, dylid darparu 3 dyfynbris o'r un fanyleb ar bapur pennawd y busnes. Bydd angen i chi gyflwyno rhesymeg glir dros ddewis eich dewis i fynd gyda'r cais.
- Wrth dderbyn y cynnig hwn o gyllid, mae'r ymgeisydd yn cytuno i ddarparu lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y telir y cyllid grant;
- Os bydd yr ymgeisydd yn methu â derbyn plant sy'n cael eu hariannu drwy'r Cynnig, yna bydd yn atebol am ad-dalu'r cyfan neu ran o'r cyllid. Ni fydd hyn yn berthnasol os gall yr ymgeisydd ddangos yn glir y byddai ef / hi yn croesawu plant o dan y Cynnig ond nad oes neb yn manteisio arno;
- Os bydd y lleoliad yn rhoi'r gorau i ddarparu lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu

All providers in receipt of funds from the Small Grants Scheme will be required to formally accept the offer in writing, by signing the Acceptance Contract as well as the Terms and Conditions of the grant.

- The funding is being provided by the Welsh Government and this must be acknowledged in any literature such as newsletters issued to parents, and the Childcare Offer branding should be used;
- If you buy goods and / or services to achieve the purpose of the application you will have to buy them in a competitive and sustainable way to show that you have achieved the best value when using public money. If works/resources being applied for from one supplier is below £4999 only 1 quote is required. If works/resources being applied for exceeds £5000 from one supplier, 3 quotes of the same specification on business headed paper should be provided. You will need to submit a clear rationale for choosing your option to accompany the application.
- In accepting this offer of funding the applicant agrees to provide Childcare Offer places for a minimum of 5 years from the date the grant funding is paid;
- If the applicant fails to accept children being funded via the Offer, then it will be liable to repay all or part of the funding. This will not apply if the applicant can clearly demonstrate that he / she would welcome children under the Offer but there is no take up;
- If the setting stops providing Childcare Offer places or routinely accepts fee paying children over those in receipt of the Offer, then they will be required to re-pay all or part of the grant funding paid;

<p>ffioedd yn rheolaidd dros y rhai sy'n derbyn y Cynnig, yna bydd yn ofynnol iddo ad-dalu'r holl gyllid grant a dalwyd neu ran ohono;</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhaid gwario'r arian ar yr eitemau hynny y bernir eu bod yn gymwys i gael cyllid yn unig, os oes tystiolaeth bod unrhyw ran o'r cyllid wedi'i defnyddio ar gyfer eitemau anghymwys, yna bydd yn ofynnol i'r lleoliad ad-dalu'r swm hwnnw; - Wrth dderbyn y cyllid grant, mae'r ymgeisydd yn cytuno i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. - Bydd yn rhaid cadw derbyniadau / anfonebau ar gyfer yr holl wariant a'u dychwelyd gyda ffurflen fonitro cyn diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol; - Mae gan Reolwr Gofal Plant Strategol y Cyngor yr hawl i gynnal ymweliad monitro i sicrhau bod y cyllid grant wedi'i wario'n union fel y nodwyd ar y ffurflen gais wreiddiol ac archwilio eich dogfennaeth ac rydych yn cytuno i gyd-weithredu â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn hynny o beth. - Mae disgwyl y byddwch yn cadw eitemau a brynwyd gyda'r cyllid grant am gyfnod penodol ar ôl cwblhau'r prosiect ac os byddwch yn gwerthu, trosglwyddo, prydlesu neu'n gwaredu fel arall yr holl asedau neu ran sylweddol o'r asedau a brynwyd o fewn 5 mlynedd i dderbyn y taliad terfynol, bydd gofyn i chi dalu rhywfaint o'r arian yn ôl yn gymesur i'r Cyngor. - Rydych yn cytuno i ad-dalu cyllid i'r Cyngor ar orchymyn os byddwch yn torri'r telerau ar gyfer dyfarnu'r grant. - Bydd gennych yswiriant digonol ar waith. 	<ul style="list-style-type: none"> - The funding must be spent solely on those items deemed eligible for funding, if there is evidence that any part of the funding has been used for ineligible items then the setting will be required to repay that amount; - In accepting the grant funding the applicant agrees to treat the Welsh language no less favourably than the English language. - Receipts / invoices for all expenditure will have to be kept and returned with a monitoring form before the end of the relevant financial year; - The Council Strategic Childcare Manager has the right to conduct a monitoring visit to ensure that the grant money has been spent exactly as stated on the original application form and inspect your documentation and you agree to co-operate with the Council and the Welsh Government in that regard. - There is an expectation that you will retain items purchased with the grant funding for a set period from completion of the project and should you sell, transfer, lease or otherwise dispose of all or any substantial part of the assets purchased within 5 years of final payment, you will be required to pay some of the funding back proportionally to the Council. - You agree to repay funding to the Council on demand in the event of a breach by you of the terms under which the grant is awarded. - You will have adequate insurance cover in place. - You acknowledge that we are subject to the requirements of the Freedom of Information Act 2000 and you may be
--	--

<p>- Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac efallai y bydd gofyn i chi ddatgelu gwybodaeth os oes angen.</p> <p>- Am 5 mlynedd o ddyddiad olaf y taliad ar gyfer y Cynllun Grantiau Bach, rydych yn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ei wneud.</p> <p>Yn yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant, dylid cyfeirio at y ffaith bod grant wedi'i ddyfarnu gan Gyngor Sir Caerfyrddin drwy Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae angen i leoliadau gofal plant hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant (gan ddefnyddio'r brandio a'r geiriad priodol) trwy'r cyfryngau cymdeithasol, taflenni, a mathau eraill o hysbysebu.</p>	<p>required to disclose information if required.</p> <p>- For 5 years from the final date of payment for the Small Grants Scheme you agree to participate in any promotional material required to be undertaken by Welsh Government.</p> <p>In all publicity associated with the Childcare Offer, reference should be made to the fact that a grant has been awarded by Carmarthenshire County Council through the Welsh Government's Capital Grant. Childcare settings need to promote the Childcare Offer (using the appropriate branding and wording) through social media, flyers, and other forms of advertising.</p>
<p style="text-align: center;"><u>Grant Diogel o ran COVID</u></p> <p>Rydym yn cydnabod bod COVID wedi gosod gofynion a disgwyliadau cynyddol ar ddarparwyr y Cynnig Gofal Plant yn Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn benodol i gefnogi lleoliadau gofal plant i brynu eitemau cyfalaf ychwanegol a/neu i wneud addasiadau ffisegol i safleoedd, i'w galluogi i weithredu mewn modd sy'n ddiogel o ran Covid. Nid yw defnyddiau traul fel Cyfarpar Diogelu Personol, hylif diheintio dwylo ac ati yn gymwys. Mae rhagor o wybodaeth am waith/adnoddau cymwys ar gael isod.</p>	<p style="text-align: center;"><u>COVID Secure Grant</u></p> <p>We recognise that COVID has placed increased demands and expectations on Childcare Offer providers in Carmarthenshire.</p> <p>This additional funding is specifically to support childcare settings to purchase extra capital items and/or to undertake physical adaptations to premises, to enable them to operate in a Covid-secure manner. Consumables such as PPE, hand sanitiser etc is not eligible. Further information regarding eligible works/resources can be found below.</p>

Lleoliadau Gofal Plant
(Gofal Dydd Llawn, Cylchoedd Meithrin,
Grwpiau Chwarae, Clybiau Gwyliau a
Gofal y tu allan i'r Ysgol)

Gellir cynnig cyllid am waith cyfalaf amrywiol y gallai fod ei angen i alluogi eich lleoliad i weithredu mewn modd diogel o ran COVID.

1. Cyfleusterau golchi dwylo ychwanegol
2. Gwelliannau i ardaloedd mewnol, gan gynnwys ffenestri/systemau awyru ychwanegol, rhannu ystafelloedd a chyfleusterau storio
3. Gwella ardaloedd awyr agored, gan gynnwys offer chwarae ychwanegol, gosod wyneb newydd ar fannau chwarae, canopïau, cysgodfannau a manau eistedd (i alluogi chwarae a dysgu ym mhob tywydd)
4. Addasiadau eraill i wella mynediad a llif, er enghraifft mynedfeydd ychwanegol a/neu ad-drefnu manau mewnol
5. Adnoddau ac offer ar gyfer plant ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol
6. Gwaith ailaddurno ac adnewyddu cyffredinol i wella safon yr amgylchedd

Beth na ellir ei ariannu:

Mae'r cyllid grant ar gyfer pryniannau cyfalaf yn unig, yn y bôn rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu neu sy'n gwella gwerth yr eiddo.

Ni ellir ei ddefnyddio i ariannu'r canlynol:

- Prynu nwyddau traul, fel papur, deunyddiau glanhau, cewynnau ac ati
- Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Biliau cyfleustodau fel nwy, trydan a threthi;
- Darpariaeth Wi-Fi;

Childcare Settings
(Full Day Care, Cylchoedd Meithrin,
Playgroups, Holiday Clubs & Out of
School Care)

Funding can be offered for various capital works that may be needed to enable your setting to operate in a COVID secure manner.

1. Additional handwashing facilities
2. Improvements to internal areas, including additional windows/ventilations, room partitioning and storage facilities
3. Improvement to outdoor areas, including additional play equipment, resurfacing of play areas, canopies, shelters, and seating areas (to enable play and learning in all weathers)
4. Other adaptations to improve access and flow, for example additional entrances and/or reconfigure internal areas
5. Resources and equipment for children with disabilities and/or additional learning needs
6. General redecoration and refurbishment to improve the standard of the environment

What cannot be funded:

The grant funding is for capital purchases only, essentially something that has a resale value or improves the value of the property.

It cannot be used to fund:

- The purchase of consumables, such as paper, cleaning materials, nappies, etc;
- Staff costs such as wages, training, travel and subsistence;
- Utility bills such as gas, electric, rates;
- The provision of WiFi;

- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeilad, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac ati.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys, cysylltwch â smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk

Gwarchodwyr Plant yn Unig

Gan fod gwarchodwyr plant yn gweithio ar safleoedd domestig, mae'r canllawiau ar gyfer gwneud cais am Gyllid Cyfalaf yn wahanol. Fodd bynnag, gellir cynnig cyllid am waith cyfalaf amrywiol y gallai fod ei angen i alluogi eich lleoliad i weithredu mewn modd diogel o ran Covid.

1. Cyfleusterau golchi dwylo ychwanegol
2. Gwella ardaloedd awyr agored, gan gynnwys offer chwarae ychwanegol, gosod wyneb newydd ar fannau chwarae, canopiâu, cysgodfannau a manau eistedd (i alluogi chwarae a dysgu ym mhob tywydd)
3. Addasiadau eraill i wella mynediad a llif, er enghraifft mynedfeydd ychwanegol a/neu ad-drefnu manau mewnol
4. Gwelliannau i ardaloedd mewnol, gan gynnwys ffenestri/systemau awyru ychwanegol, rhannu ystafelloedd a chyfleusterau storio
5. Adnoddau ac offer ar gyfer plant ag anabledau a/neu anghenion dysgu ychwanegol

Beth na ellir ei ariannu:

Mae'r cyllid grant ar gyfer pryniannau cyfalaf yn unig, yn y bôn rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu. Mewn lleoliad gwarchod plant ni ellir ei ddefnyddio i ariannu'r canlynol:

- Insurance costs e.g. building insurance, employer's liability insurance, etc.

This list is not exhaustive; if there is any doubt as to whether an item is eligible please contact smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk

Childminders Only

As childminders work on domestic premises the guidance for applications for Capital Funding is different. Funding can however be offered for various capital works that may be needed to enable your setting to operate in a COVID secure manner.

1. Additional handwashing facilities
2. Improvement to outdoor areas, including additional play equipment, resurfacing of play areas, canopies, shelters, and seating areas (to enable play and learning in all weathers)
3. Other adaptations to improve access and flow, for example additional entrances and/or reconfigure internal areas
4. Improvements to internal areas, including additional windows/ventilations, room partitioning and storage facilities
5. Resources and equipment for children with disabilities and/or additional learning needs

What cannot be funded:

The grant funding is for capital purchases only, essentially something that has a resale value. In a childminding setting it cannot be used to fund:

<ul style="list-style-type: none"> - Prynu nwyddau traul, fel papur, deunyddiau glanhau, cewynnau ac ati - Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth; - Biliau cyfleustodau fel nwy, trydan a threthi; - Darpariaeth Wi-Fi; - Costau yswiriant e.e. yswiriant adeilad, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac ati. - Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys paentio, gosod carpedi newydd ac ati. - Atgyweirio / gosod gosodion a ffitiadau newydd megis toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau ac ati; <p>Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys, cysylltwch â smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk</p>	<ul style="list-style-type: none"> - The purchase of consumables, such as paper, cleaning materials, nappies, etc; - Staff costs such as wages, training, travel and subsistence; - Utility bills such as gas, electric, rates; - The provision of WiFi; - Insurance costs e.g. building insurance, employer's liability insurance, etc. - General refurbishment, including painting, replacing carpets, etc. - Replacing / repairing fixtures and fittings such as toilets, kitchen facilities, windows, doors, etc; <p>This list is not exhaustive; if there is any doubt as to whether an item is eligible please contact smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk</p>
<p><u>Grant Digidol y Cynnig Gofal Plant</u></p> <p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sicrhau cyllid ychwanegol i gynorthwyo Darparwyr Gofal Plant i uwchraddio neu brynu offer TG i fodloni gofynion Plattform Digidol y Cynnig Gofal Plant.</p> <p>Gellir cynnig cyllid wrth brynu neu uwchraddio'r offer TG canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gliniadur/Cyfrifiadur 2. Monitor 3. Llechen 4. Argraffydd 5. Bysellfwrdd 6. Llygoden 7. Clustffonau 8. Gorsaf Ddocio 9. Pecynnau Meddalwedd megis gwrthfeirysau a Microsoft Office <p><u>Beth na ellir ei ariannu:</u> Ni ellir defnyddio'r grant i ariannu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Papur/Cerdyn - Cetris Inc 	<p><u>Childcare Offer Digital Grant</u></p> <p>Carmarthenshire County Council have secured additional funding to assist Childcare Providers in upgrading or purchasing IT equipment to meet the demands of the Childcare Offer Digital Platform.</p> <p>Funding can be offered in the purchasing or upgrading of the following IT equipment:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Laptop/PC 2. Monitor 3. Tablet 4. Printer 5. Keyboard 6. Mouse 7. Headset 8. Docking Station 9. Software Packages such as antivirus & Microsoft Office <p><u>What cannot be funded:</u> The grant cannot be used to fund:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Paper/card

<p>- Yswiriant cyfarpar</p> <p>Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys, cysylltwch â smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk</p>	<p>- Ink cartridges - Equipment insurance</p> <p>This list is not exhaustive; if there is any doubt as to whether an item is eligible please contact smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk</p>
<p style="text-align: center;"><u>Trothwyon Ariannu</u></p> <p>Mae'r uchafswm cyfunol (Grant Covid a Digidol) sydd ar gael i unrhyw leoliad gofal plant fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwarchodwyr plant a'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 8 o leoedd gofal plant neu lai - £5,000 • Darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru ar gyfer 9-15 lle - £7,500 • Darparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru ar gyfer 16+ lle - £10,000 <p>O fewn y symiau uchod, ni ellir gwario mwy na £1,000 ar offer TG.</p> <p>Sylwer, mae Clybiau Gwyliau sydd ar agor am gyfnod cyfyngedig o'r flwyddyn yn gymwys i wneud cais, ond mae'r trothwy ariannu canlynol wedi'i osod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • £5,000 ar gyfer adnoddau ac offer i'w galluogi i fod yn ddiogel o ran Covid. Gall uchafswm o £1,000 o hyn fod ar gyfer offer TG. 	<p style="text-align: center;"><u>Funding Thresholds</u></p> <p>The maximum combined amount (Covid & Digital Grant) available to any registered childcare setting is as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Childminders and those registered for 8 or fewer childcare places -£5,000 • Childcare providers registered for 9-15 places - £7,500 • Childcare providers registered for 16+ places - £10,000 <p>Within the above amounts, a limit of £1,000 can be spent on IT equipment.</p> <p>Please note, Holiday Clubs that are open for a limited period of the year are eligible to apply however the following funding threshold has been imposed:</p> <ul style="list-style-type: none"> • £5,000 for resources and equipment to enable them to become covid-secure. A maximum of £1,000 of this can be for IT equipment.
<p style="text-align: center;"><u>Sut i Wneud Cais</u></p> <p>Er mwyn ymgeisio am un grant neu'r ddau grant, llenwch y ffurflen Cynllun Grantiau Bach: Cais am Gyllid Ychwanegol.</p> <p>Mae'r ffurflen gais hon ar gael ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd neu fel arall i ofyn am gopi, cysylltwch â: smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk</p>	<p style="text-align: center;"><u>How to Apply</u></p> <p>To apply for either or both grants, please complete the Small Grant Scheme: Additional Funding Application.</p> <p>This application form can be found on the Family Information Service website or alternatively to request a copy please contact: smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk</p>

Sicrhewch fod ceisiadau'n cael eu cwblhau'n llawn, eu llofnodi a'u dyddio pan fyddant yn cael eu cyflwyno. **Bydd ceisiadau anghyflawn a heb eu llofnodi yn cael eu gwrthod yn awtomatig.**

Er mwyn sicrhau nad oes oedi wrth brosesu eich cais, cyflwynwch yr holl ddogfennau ategol ynghyd â'ch cais wedi'i gwblhau.

Os byddwch yn dewis **gwneud cais am y ddau grant**, dim ond **unwaith y bydd gofyn i chi lenwi'r ffurflen gais**. O dan adran D, cwestiwn 23 defnyddiwch y penawdau perthnasol i nodi pa grant rydych yn gwneud cais amdano.

Please ensure applications are fully completed, signed, and dated upon submission. **Incomplete and unsigned applications will be automatically refused.**

To ensure there is no delay in processing your application, please submit all supporting documents along with your completed application.

If you choose to **apply for both grants**, you will only be required to **complete the application form once**. Under section D, question 23 please use the relevant headings to specify which grant you are applying for.

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais

Rhaid cyflwyno pob cais erbyn:

- Dydd Gwener, 10 Rhagfyr

Dylid dychwelyd pob ffurflen gais wedi'i chwblhau at:

smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk

neu ei phostio i:

**Tîm Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal
Plant a Chwarae**
Adeilad 2,
Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job,
Sir Gaerfyrddin
SA31 3HB

Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau.

Closing date for applications

All applications must be submitted by:

- Friday, 10th December

All completed applications are to be returned to:

smallgrantscheme@carmarthenshire.gov.uk

or posted to:

**Family Information, Childcare & Play
Team**
Building 2,
Parc Dewi Sant,
Jobs Well Road,
Carmarthenshire
SA31 3HB

Any applications received after the closing date will not be considered.